



Asesu dyluniadau gorsafoedd niwclear  
newydd

Asesiad Dyluniad Generig Adweithydd  
Dŵr Berw Uwch y DU Hitachi-GE  
Nuclear Energy Limited

Crynodeb o'r ddogfen ymgynghori

12 Rhagfyr 2016

**Asiantaeth yr Amgylchedd ydym ni. Rydym yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd ac yn ei wneud yn lle gwell i bobl a bywyd gwyllt.**

**Rydym yn gweithredu lle mae newid amgylcheddol yn cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl. Rydym yn lleihau'r risgiau i bobl ac eiddo sy'n gysylltiedig â llifogydd; yn sicrhau bod digon o ddŵr i bobl a bywyd gwyllt; yn diogelu ac yn gwella ansawdd aer, tir a dŵr ac yn cymhwyso'r safonau amgylcheddol y gall diwydiant weithredu'n unol â hwy.**

**Mae gweithredu i leihau newid yn yr hinsawdd a helpu pobl a bywyd gwyllt i addasu i'w ganlyniadau wrth wraidd popeth a wnawn.**

**Ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain. Rydym yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth eang o bartneriaid gan gynnwys y llywodraeth, busnesau, awdurdodau lleol, asiantaethau eraill, grwpiau cymdeithas sifil a'r cymunedau a wasanaethir gennym.**

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cyflogi 1,800 o staff ledled Cymru. Cafodd ei sefydlu ym mis Ebrill 2013, gan fabwysiadu gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i raddau helaeth, ynghyd â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein prif swyddogaethau yw:

- Cynghorydd: prif gynghorydd Llywodraeth Cymru, a chynghorydd diwydiant a'r sector cyhoeddus a gwirfoddol ehangach, ynghyd â chyfathrebwr ar faterion yn ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol
- Rheoleiddiwr: yn gwarchod pobl a'r amgylchedd, gan gynnwys y diwydiannau morol, coedwigaeth a gwastraff, ac yn erlyn y rhai sy'n torri'r rheoliadau rydyn ni'n gyfrifol amdanynt
- Dynodwr: ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig - ardaloedd sydd o werth neilltuol oherwydd eu bywyd gwyllt neu eu daeareg, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), a Pharciau Cenedlaethol, yn ogystal â chyhoeddi Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol
- Ymatebwr: i tua 9,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol y ceir gwybod amdanynt bob blwyddyn, fel ymatebwr argyfwng Categori 1
- Ymgynghorai statudol: i tua 9,000 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn
- Rheolwr/gweithredwr: yn rheoli 7% o dir Cymru, sy'n cynnwys coetiroedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, amddiffynfeydd dŵr a llifogydd, ac yn gweithredu ein canolfannau ymwelwyr, ein cyfleusterau hamdden, ein deorfeydd a labordy
- Partner, addysgwr a galluogwr: y prif gydweithredwr gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn darparu cymorth grant, ac yn helpu amrywiaeth eang o bobl i ddefnyddio'r amgylchedd fel adnodd dysgu
- Casglwr tystiolaeth: monitro'n hamgylchedd, comisiynu a gwneud gwaith ymchwil, datblygu'n gwybodaeth a bod yn gorff cofnodion cyhoeddus

Cyhoeddwyd gan:

Environment Agency  
Horizon House, Deanery Road,  
Bristol BS1 5AH  
E-bost: [enquiries@environment-agency.gov.uk](mailto:enquiries@environment-agency.gov.uk)  
[www.gov.uk/environment-agency](http://www.gov.uk/environment-agency)

© Asiantaeth yr Amgylchedd 2016

Cedwir pob hawl. Gellir llungopïo'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Gellir cael copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn o'n catalog cyhoeddiadau:

[www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

neu o'n Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid

Genedlaethol:

Ff: 03708 506506

E-bost: [enquiries@environment-agency.gov.uk](mailto:enquiries@environment-agency.gov.uk).

# Cynnwys

<b>Cynnwys</b> .....	<b>4</b>
<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>5</b>
<b>Gwahoddiad i roi sylwadau</b> .....	<b>5</b>
<b>Gorsafoedd niwcliar newydd - barn y Llywodraeth</b> .....	<b>6</b>
<b>Rheoleiddio gorsafoedd ynni niwcliar</b> .....	<b>6</b>
<b>Asesiad dyluniad generig</b> .....	<b>7</b>
<b>Dyluniad Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU</b> .....	<b>7</b>
<b>Ein safbwynt cychwynol ar ddyluniad ABWR y DU</b> .....	<b>8</b>
<b>Sut i ymateb</b> .....	<b>10</b>
Ar-lein.....	10
Drwy e-bost neu lythyr.....	10
Drwy'n gweld mewn digwyddiad .....	11
<b>Camau nesaf</b> .....	<b>11</b>
<b>Cyfeiriadau</b> .....	<b>12</b>

# Cyflwyniad

**Mae gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn rhan bwysig o gynlluniau Llywodraeth y ar gyfer cynhyrchu trydan carbon isel.**

**Mae rheolweiddwyr yn craffu ar ddyluniadau gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn drylwyr, gan wneud yn siŵr nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd neu bobl.**

**Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am eich barn ar eu hasesiad o o ddyluniad gorsaf ynni niwclear Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU**

Fel rheoleiddwyr y diwydiant niwclear, mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR), Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio i sicrhau bod unrhyw orsafoedd ynni niwclear newydd sy'n cael eu hadeiladu yn y DU yn bodloni safonau uchel o ran diogelwch, diogeled, diogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff ymbelydrol.

Mae Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd (Hitachi-GE) yn ddarparwr mawr o dechnolegau niwclear. Maent wedi datblygu gorsafoedd ABWR a ddefnyddir yn Japan, ac maent bellach wedi cyflwyno y dyluniad ar gyfer ABWR y DU i'r rheoleiddwyr niwclear ar gyfer asesiad dyluniad generig (GDA)

Mae asesiad dyluniad generig (GDA) yn ein galluogi i graffu ar ddyluniadau gorsafoedd ynni niwclear newydd cyn iddynt gael eu hadeiladu. Mae hyn yn golygu y gallwn nodi'n gynnar unrhyw broblemau dylunio neu dechnegol posibl gan ofyn i'r cwmni dylunio fynd i'r afael â'r materion hyn, ac osgoi problemau posib yn ystod y cyfnod adeiladu.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud a'n asesiad cychwynnol o ddyluniad gorsaf ynni niwclear Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU. Mae'n gofyn am eich sylwadau ar agweddau amgylcheddol y dyluniad ac ar ein hasesiad ni o'r agweddau hynny.

Nid yw ein hymgynghoriad yn ymwneud â safle penodol. Nid yw'n ymwneud â'r angen am ynni niwclear, lleoliad gorsafoedd ynni niwclear, na diogelwch a diogeledd y dyluniad.

## Gwahoddiad i roi sylwadau

Gallwn oll yn helpu i ddiogelu a gwella'r amgylchedd drwy gymryd rhan. Rydym wedi gwneud y broses GDA yn agored, yn dryloyw ac yn ymgynghorol a hoffem i bobl ddeall ein rôl, beth yr ydym yn ei wneud a pham mae'n bwysig

Mae hwn yn ymgynghoriad cyhoeddus ac rydym yn croesawu barn pawb. Rydym am glywed gan y cyhoedd, y diwydiant ynni, academyddion sydd â diddordeb mewn pŵer niwclear, ynni neu amgylchedd, cyrff anllywodraethol (NGOs) ac unrhyw sefydliad neu gorff cyhoeddus.

Hoffem gael eich barn ar:

- agweddau amgylcheddol y dyluniad
- gasgliadau rhagarweiniol Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn eu hasesiad manwl o'r agweddau amgylcheddol ar yr orsaf pŵer niwclear ABWR y DU

Mae'r ymgynghoriad 12-wythnos yn dechrau ar 12 Rhagfyr ac yn cau ar 3 Mawrth 2017.

Gallwch weld manylion am ein cwestiynau ymgynghori, pynciau asesiad manwl a chanfyddiadau'r asesiad yn ein hadroddiadau ddogfen ac asesu ymgynghori llawn ar

# Gorsafoedd niwcliar newydd - barn y Llywodraeth

Mae'r llywodraeth wedi amlinellu ei hymrwymiad i ehangu'r diwydiant ynni niwclear yn sylweddol yn y DU, gan ddatgan y bydd ynni niwclear, ynghyd â nwy a ffynonellau ynni adnewyddadwy, yn sicrhau bod gan y DU ddigon o drydan carbon isel yn y dyfodol. Gan ei fod yn annog datblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd, mae wedi gofyn i'r rheolyddion i asesu diogelwch, diogeledd ac effeithiau amgylcheddol dyluniadau adweithydd newydd cyn y cânt eu hadeiladu.

## Rheoleiddio gorsafoedd ynni niwcliar

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio effeithiau amgylcheddol safleoedd niwclear yn Lloegr, Gwnawn hyn drwy bennu amrywiaeth o drwyddedau amgylcheddol ar gyfer paratoi, adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud yr un gwaith yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos gydag ONR, sy'n rheoleiddio agweddau diogelwch a diogeledd safleoedd niwclear.

Yn sgil disgwyliad y llywodraeth a diwydiant i gael gorsafoedd ynni o'r un dyluniad fwy neu lai wedi'u hadeiladu ar nifer o safleoedd a'u rhedeg gan wahanol gwmnïau gweithredu o bosibl, rydym wedi rhannu'n proses o asesu a thrwyddedu cam gweithredol gorsafoedd ynni niwclear newydd yn ddau gam

Yn y cam cyntaf, GDA, rydym yn cynnal asesiadau o ddyluniadau ymgeiswyr ac yn y pen draw byddwn yn darparu datganiad derbynioldeb dyluniad. Efallai y bydd Materion GDA a Chanfyddiadau Asesu'n gysylltiedig â'r datganiad. Yn achos ABWR y DU, rydym yn y cam hwn yn awr,

**Yr hyn yw Mater GDA** yw mater arwyddocaol sydd heb ei ddatrys, ond sy'n bosibl i'w ddatrys, ac sy'n rhaid ei ddatrys cyn gallu ystyried gwaith adeiladu diogel o'r adweithydd. Rhaid i'r cwmni gyhoeddi 'cynllun datrys' sy'n nodi sut y bydd yn ymdrin â mater. Rhaid datrys materion GDA holl er boddhad y rheoleiddwyr cyn y gellir cwblhau'r GDA.

**Canfyddiad Asesu** yw mater heb ei ddatrys nad yw'n cael ei ystyried yn hanfodol i'r penderfyniad i ddechrau adeiladu adweithydd diogel yn yr ynys niwclear - ni fydd angen mynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod cam dylunio, caffael, adeiladu na chomisiynu'r prosiect adeiladu newydd.

Yn yr ail gam, rydym yn derbyn ceisiadau am drwyddedau amgylcheddol ar gyfer safleoedd penodol. Rydym yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gwaith rydym wedi'i wneud yn ystod y GDA fel bod ein hymdrechion yn canolbwyntio ar faterion sy'n benodol i'r safle, yn cynnwys sut mae'r gweithredwr wedi mynd i'r afael ag unrhyw Ganfyddiadau Asesu. Rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall hefyd cyn penderfynu rhoi trwyddedau gweithredol i safle penodol.

Y safleoedd arfaethedig ar gyfer ABWR y DU yw Wylfa Newydd ar Ynys Môn, ac Oldbury-ar-Hafren yn ne swydd Gaerloyw.

# Asesiad dyluniad generig

Mae GDA'n golygu ein bod ni'n asesu derbynioldeb agweddau amgylcheddol dyluniad cyffredinol yr adweithydd cyn i geisiadau safle unigol gael eu gwneud. Mae GDA yn ein galluogi i weithio gyda darpar dylunwyr a gweithredwyr gorsafoedd ynni niwclear newydd cyn gynted â phosib, fel y gallwn gael y dylanwad mwyaf ac y gellir dysgu gwersi cyn dechrau ar y gwaith adeiladu.

Mae nifer o gamau yn y broses:

1. **asesiad cychwynnol** gallwn ofyn i'r parti ymgeisio am fanylion pellach neu gofyn iddynt wneud newidiadau
2. **asesiad manwl** rydym yn ystyried y cais yn fanwl er mwyn dod i farn gychwynnol
3. **ymgyngori:** rydym yn ymgyngori'n eang ar ein barn gychwynnol yn dilyn yr asesiad manwl - rydym ar y cam hwn ar hyn o bryd.
4. **Adolygiad ar ôl yr ymgyngoriad:** rydym yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgyngoriad.
5. **penderfyniad a datganiad:** rydym yn penderfynu a ddylid cyhoeddi datganiad derbynioldeb dyluniad (SoDA) neu datganiad derbynioldeb dyluniad interim (iSoDA) ai peidio

Mae'r GDA yn seiliedig ar safle generig. Wrth asesu ceisiadau am drwyddedau amgylcheddol byddwn yn defnyddio nodweddion gwirioneddol y safle penodol lle bwriedir adeiladu. Gall nodweddion y safle penodol fod yn wahanol i'r rhai generig. Ceir mwy o fanylion am ein proses GDA yn ein dogfen broses a gwybodaeth (P & ID) (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2013).


Gall GDA gael 3 canlyniad gwahanol

- Os ydym yn gwbl fodlon ag agweddau amgylcheddol y dyluniad, rydym yn darparu datganiad derbynioldeb dyluniad (SoDA)
- Os ydym yn fodlon i raddau helaeth ag agweddau amgylcheddol y dyluniad, rydym yn darparu datganiad derbynioldeb dyluniad interim (iSoDA) sy'n nodi'r materion GDA sydd ar ôl i'w datrys.
- Os nad ydym yn fodlon ag agweddau amgylcheddol y dyluniad nid ydym yn darparu SoDA nac iSoDA

## Dyluniad Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU

Ceir gwahanol fathau o adweithyddion niwclear ledled y byd, gyda dros 400 ar waith. Un o'r mathau mwyaf cyffredin yw'r adweithydd dŵr berwedig (BWR). Yr adweithydd dŵr berw uwch (ABWR) yw'r cynllun mwyaf diweddar ac mae eisoes yn weithredol mewn mannau eraill yn y byd. Mae'n gallu cynhyrchu tua 1,350 megawatt o drydan, sy'n ddigon i bweru mwy na 2 filiwn o gartrefi ar gyfartaledd,

**Figure 1. Diagram ABWR y DU (llun gan Hitachi-GE)**



Mae'r adweithyddion dŵr berwedig yn gweithio drwy basio y stêm sydd wedi ei gynhyrchu tu mewn adweithydd yn uniongyrchol i'r tyrbin BWRs work by passing the steam that has been generated inside the reactor directly to the turbine. Mae hyn yn gwneud i'r tyrbin droi ac mae'n gyrru generadur sy'n cynhyrchu trydan.

Ceir mwy o fanylion am ABWR y DU ar: <http://www.hitachi-hgne-uk-abwr.com/index.html>

## Ein safbwynt cychwynnol ar ddyluniad ABWR y DU

Cyflwynodd Hitachi-GE ei ddyluniad ABWR DU ar gyfer GDA ym mis Ebrill 2014. Gorffennwyd yr asesiad cychwynnol a fe gyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Awst 2014 (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2014). Ers hynny, wedi bod yn cynnal ein asesiad manwl. Rydym wedi seilio ein canfyddiadau hyd yma ar wybodaeth a gyflwynwyd erbyn 8 Gorffennaf 2016 a'i asesu erbyn 5 Awst 2016.

Rydym yn cyhoeddi 11 o adroddiadau asesu ac asesiad dos annibynnol sy'n cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori. <https://www.gov.uk/government/publications/gda-of-hitachi-ge-nuclear-energy-ltds-uk-advanced-boiling-water-reactor-assessment-reports>



### **Ein hadroddiadau asesu amgylcheddol:**

- Systemau rheoli: nodi os oes gan y dylunydd y systemau rheoli angenrheidiol a'r adnoddau i sicrhau y bydd y dyluniad yn cyrraedd safonau uchel o warchod pobl a'r amgylchedd.
- Strategaeth wastraff integredig: asesu'r trefniannau ar gyfer rheoli gwastraff ar gyfer safle generig.
- Nodi'r technegau gorau (BAT): archwilio'r dystiolaeth ar gyfer honiadau a wnaed mewn perthynas â lleihau gwastraff ac effeithiau amgylcheddol.
- Gwastraff nwyol: trafod y gollyngiadau nwyol ymbelydrol a amcangyfrifir a'r terfynau arfaethedig ar gyfer rhyddhau ymbelydredd i aer.
- Gwastraff dyfrllyd: trafod y gollyngiadau dyfrllyd a amcangyfrifir a'r terfynau arfaethedig ar gyfer rhyddhau ymbelydredd dyfrllyd.
- Gwastraff ymbelydrol solid, tanwydd wedi'i ddefnyddio a'u waredu: trafod symiau disgwylidig o wastraff solid a rheoli'r gwastraff hwn yn y tymor hir.
- Samplu a monitro: trafod y gallu i fonitro gollyngiadau ymbelydrol i safon briodol ar gyfer cydymffurfio â thwyddedau.
- Cysyniad safle generig: trafod goblygiadau y safle generig a ddewiswyd ar gyfer GDA a pherthnasedd iSoDA / SoDA.
- Effaith radiolegol ar bobl: asesu effaith ymbelydredd ar aelodau o'r cyhoedd.
- Effaith radiolegol ar rywogaethau heblaw pobl: asesu effaith ymbelydredd ar blanhigion ac anifeiliaid.
- Rheoliadau amgylcheddol eraill: nodi dichonoldeb cydymffurfiant â deddfau amgylcheddol heblaw rheoli sylweddau ymbelydrol er enghraifft COMAH, gweithgareddau hylosgi a gollyngiadau dyfrllyd nad ydynt yn ymbelydrol.
- Independent dose assessment: assessing the impact of radioactivity on members of the public and comparing the methodology and outcomes with a similar study undertaken by Hitachi-GE.
- Asesiad dos annibynnol: asesu effaith ymbelydredd ar aelodau o'r cyhoedd a chymharu y fethodoleg a'r canlyniadau gyda'r astudiaeth debyg a gynhaliwyd gan Hitachi-GE.

Yn seiliedig ar ein canfyddiadau hyd yn hyn, ein casgliad rhagarweiniol yw ein bod yn ystyried y byddai llawer o'r agweddau amgylcheddol ar y dyluniad yn dderbyniol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae 3 mater mae'n rhaid rhoi sylw iddynt cyn y byddwn yn barod i gyhoeddi datganiad llawn o dderbynioldeb dylunio ar gyfer ABWR y DU. Crynhoir y rhain isod, ond rhoddir mwy o fanylion a chyd-destun yn ein dogfennau ymgynghori

### **Materion GDA Posibl**

Mater GDA Posibl 1 – Datgomisiynu ABWR y DU. Rydym yn gofyn i Hitachi-GE ddarparu digon o dystiolaeth i ddangos bod ABWR y DU wedi'i gynllunio i hwyluso datgomisiynu ac felly i leihau gwastraff cysylltiedig ac effeithiau ar bobl a'r amgylchedd yn sgil gweithrediadau datgomisiynu.

Mater GDA Posibl 2 - Ffuriau ffynhonnell ar gyfer ABWR y DU. Rydym yn gofyn i Hitachi-GE ddarparu diffiniad addas a digonol a chyfiawnhad am y ffuriau ffynhonnell ymbelydrol yn ABWR y DU yn ystod gweithrediadau arferol.

Mater GDA Posibl 3 - Ystyried y defnydd gorau posibl o'r technegau gorau sydd ar gael (BAT) a 'mor isel ag y gellir ei gyflawni'n ymarferol' (ALARP). Rydym yn gofyn i Hitachi-GE ddangos bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i agweddau amgylcheddol a diogelwch er mwyn sicrhau'r dyluniad gorau posibl.

Rydym hefyd wedi nodi 17 canfyddiad asesiad yn y dogfennau ymgynghori a byddwn yn disgwyl i rhain gael sylw yn y dyfodol, ar yr amser perthnasol yng nghylch bywyd yr orsaf.

Rydym wedi cynnwys iSoDA drafft gyda'r dogfennau ymgynghori.

Byddwn yn parhau â'n hasesiad manwl, ac yn ystyried yn ofalus gynnwys ymatebion i'r ymgynghoriad, ac fe fyddwn yn disgwyl i Hitachi-GE barhau i geisio datrys y Materion GDA posibl a welir uchod yn ystod y broses hon fel y gallwn gyhoeddi SoDA llawn ar ddiwedd y broses. Yr ydym yn hyderus y gellir datrys y materion presennol gan Hitachi-GE ystod GDA. Dim ond pan fyddwn yn fodlon bod yr holl faterion wedi eu datrys y byddwn yn gallu cyhoeddi'r datganiad llawn. Os nad yw'r materion yma wedi'u datrys, am unrhyw reswm, erbyn diwedd y GDA yna dim ond yn datganiad derbynioldeb dylunio interim a fyddwn ni'n gallu cyhoeddi.

Mae ein casgliadau rhagarweiniol a rhesymeg ategol ar gael yn ein dogfen ymgynghori llawn a byddem yn croesawu eich barn.

## **Sut i ymateb**

Gallwch gyflwyno eich sylwadau mewn sawl ffordd.

### **Ar-lein**

Ewch i'n gwefan i weld yr ymgynghoriad llawn ar

<https://www.gov.uk/government/consultations/gda-of-hitachi-ge-nuclear-energy-ltds-uk-advanced-boiling-water-reactor>

### **Drwy e-bost neu lythyr**

Gallwch gyflwyno ymateb drwy e-bost neu lythyr hefyd.

E-bost: [gda@environment-agency.gov.uk](mailto:gda@environment-agency.gov.uk)

Post: For the attention of Declan Roscoe  
Environment Agency  
Ghyll Mount

Gillan Way  
Penrith 40 Business Park  
Penrith  
Cumbria  
CA11 9BP

## Drwy'n gweld mewn digwyddiad

Byddwn yn cynnal sesiynau galw heibio cymunedol lleol ger safleoedd arfaethedig Horizon yn Oldbury a Wylfa Newydd yn ystod y cyfnod ymgynghori, fel bod cyfle i bawb gael dweud eu dweud.

## Camau nesaf

Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ac yn cwblhau ein asesiad manwl cyn i ni wneud ein penderfyniad i gyhoeddi datganiad, neu ddatganiad interim, ar dderbynioldeb dylunio ar gyfer ABWR DU neu beidio.

Byddwn yn crynhoi'r ymatebion i'n hymgyngoriad, materion a godwyd a'n barn ar y materion hynny.

Rydym yn anelu i gyhoeddi ein casgliadau terfynol yn ein 'dogfen benderfyniad' ym mis Rhagfyr 2017.

# Cyfeiriadau

---

<b>Cyfeiriad</b>	<b>Manylion</b>
Environment Agency, 2013	Process and Information Document for Generic Assessment of Candidate Nuclear Power Plant Designs, Version 2, Environment Agency, Maw 2013.  <a href="http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20151009003754/https://www.gov.uk/government/publications/assessment-of-candidate-nuclear-power-plant-designs">http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20151009003754/https://www.gov.uk/government/publications/assessment-of-candidate-nuclear-power-plant-designs</a>
Environment Agency, 2014	Report on initial assessment of Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd's UK Advanced Boiling Water Reactor  <a href="https://www.gov.uk/government/publications/discharges-from-boiling-water-reactors-review-of-discharge-data">https://www.gov.uk/government/publications/discharges-from-boiling-water-reactors-review-of-discharge-data</a>

---

## **Y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid 0300 0653000 (Llun-Gwener, 9am-5pm)**

Mae'r Ganolfan Gofal Cwsmeriaid yn trafod popeth o ymholiadau cyffredinol syml i ymholiadau mwy cymhleth yn ymwneud â chofrestru ar gyfer trwyddedau amrywiol. Gall y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid ddarparu gwybodaeth am y pynciau canlynol:

- esemptiadau dŵr a gwastraff
- cofrestriadau Cludwyr a Broceriaid Haen Isaf ac Uchaf
- cofrestriadau gwastraff peryglus
- trwyddedau pysgota â rhwydi
- trwyddedau hel cocos
- ceisiadau am drwyddedau adnoddau dŵr
- ceisiadau am drwyddedau gwastraff
- ceisiadau am drwyddedau ansawdd dŵr
- ceisiadau am drwyddedau ar gyfer gosodiadau
- ceisiadau am drwyddedau morol
- ceisiadau cynllunio
- cyhoeddiadau

### **Cyfeiriad e-bost**

[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)

### **Cyfeiriad post**

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol

Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

## **Llinell Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau 0300 065 3000, pwyswch 1 (gwasanaeth 24 awr)**

Dylech ddefnyddio'r llinell achosion brys i roi gwybod am ddigwyddiad fel llygredd. Gallwch weld rhestr lawn o'r achosion yr ydyn ni'n delio gyda nhw ar ein tudalen [Rhowch Wybod](#).

## **Floodline 0345 988 1188 (gwasanaeth 24 awr)**

Cysylltwch â Floodline am wybodaeth ynghylch llifogydd. Floodline Type Talk: 0345 602 6340 (ar gyfer cwsmeriaid trwm eu clyw).

**Would you like to find out more about us  
or about your environment?**

**Then call us on**

**03708 506 506** (Monday to Friday, 8am to 6pm)

**email**

**enquiries@environment-agency.gov.uk**

**or visit our website**

**[www.gov.uk/environment-agency](http://www.gov.uk/environment-agency)**

**floodline 0345 988 1188** (24 hours)

Find out about call charges ([www.gov.uk/call-charges](http://www.gov.uk/call-charges))



**Environment first:** Are you viewing this on screen? Please consider the environment and only print if absolutely necessary. If you are reading a paper copy, please don't forget to reuse and recycle if possible.